

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mehefin 7fed, 2018 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; Tegid Jones; Trefor Wyn Jones; Gareth O Davies; Naomi Jones; Sion Aled Jones a'r Clerc.

Materion personol:

Cydymdeimlwyd yn ddiffuant gyda theulu'r Cynghorydd Angela Williams ar eu profedigaeth lem ddiweddar; roedd y Clerc wedi anfon cerdyn i gydymdeimlo ar ran y Cyngor.

Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Parch. Aled Davies ar gael ei ddewis yn Llywydd y Bedyddwyr am y flwyddyn hon gan ddymuno adferiad buan iddo ar ôl ei ddamwain ddiweddar.

1. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr

Aled Davies; Ceri Jones; Marian Evans; Angela Williams; Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones a William Ifor Hughes.

2. Cadarnhawyd ethol Is gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn, y Cynghorydd Anwen Jones.

3. Arwyddwyd Datganiad Derbyn Swydd Is gadeirydd gan y Cynghorydd Anwen Jones..

4. Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fai 3ydd, 2018 gydag un cywiriad sef rhif 21c, taliad cofrestru gyda'r ICO, taliad BACS yn lle siec a chyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Amodau Gwaith gynhaliwyd ar Fai 8fed, 2018.

5. Arwyddwyd cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.

6. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

7. Datgan buddiant personol. Y Cynghorydd Sion Aled Jones yn datgan buddiant personol yn rhif 19 ar y rhaglen waith, llythyr cais Cylch Meithrin Chwilog am gymorth ariannol oherwydd bod ei ferch yn mynychu'r Cylch.

8. Cyngor Gwynedd.

1. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn; Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid, Cymysgedd Tai. www.gwynedd.llyw.cymru/cca. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorwyr Margaret Griffith, Thomas Prys Jones, Aled Lloyd Evans a Trefor W Jones gyfarfod i drafod y dogfennau ac adrodd yn ôl i'r Clerc iddo allu anfon sylwadau ar ran y Cyngor erbyn y dyddiad cau sef Gorffennaf 5ed, 2018.

2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mehefin 2018. Derbyniwyd.

3. Llwybr Traeth Afonwen, canclwm siapaneaidd. Mae Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd wedi hysbysu Dŵr Cymru o'r broblem eleni eto. Penderfynwyd derbyn.

4. Adroddiad Archwilio Llifogydd, rhes tai Penygroes Llanystumdwy. Derbyniwyd er gwybodaeth.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

5. Deddf Rheoli Trafnidiaeth y Ffyrdd 1984 – Adran 14(2) wedi ei gywiro gan y Ddeddf Trafnidiaeth Ffordd (Cyfyngiadau dros dro) 1991; Cyngor Gwynedd – cau'r ffordd ddi-ddosbarth o'r ffordd i Rhos Penarth heibio Penarth Fawr i'r A497 ger Glan Morfa, Chwilog; Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd dros dro. Penderfynwyd derbyn.

9. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif: C18/0191/41/CR – Codi ail simdde ar yr adeilad; The Old Tollgate, Chwilog. Cefnogwyd.
2. Cais Rhif: C18/0371/41/LL – Codi strwythur pren allanol; Talhenbont Hall, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.
3. Cais Rhif: C18/0402/41/LL – Ail gyflwyniad o gais a wrthodwyd o dan C18/0032/41/LL ar gyfer codi estyniad deulawr ar ochr yr eiddo; Bryn Gwynt, Afonwen. Cefnogwyd.
4. Cais Rhif: C18/0403/41/LL – Codi modurdy ar wahan; Yr Hen Rheithordy, Llanystumdwy. Penderfynwyd cefnogi.
5. Cais rhif: C18/0420/41/LL – Diwygiad o gais a wrthodwyd o dan C17/1084/41/LL ar gyfer codi estyniadau; Ty'n Rhos Penarth, Chwilog. Cefnogwyd.
6. Cais Rhif: C18/0385/41/LL – Defnyddio tir ar gyfer gweithgaredd safari beic quad yn ychwanegol at weithgareddau Segway, saethu paent (gemau sgarmes) a byw bywyd gwyllt presennol; Dragon Raiders Activity Park, Gwynfryn Lodge, Criccieth. Roedd nifer o drethdalwyr wedi cysylltu gydag amryw o Gynghorwyr yn mynegi gwrthwynebiad i'r cais yma. Penderfynwyd gwrthwynebu oherwydd pryder am lygredd sŵn o'r datblygiad a'r effaith ar yr amgylchedd; datblygiad anaddas i'r safle; maint y lle parcio ac amheuaeth ynghylch cywirdeb amryw o'r ffeithiau sydd ar y ffurflen gais.
7. Cais Rhif: C18/0461/41/TC – Tystysgrif Tystysgrif datblygiad cyfreithlon (defnydd presennol) ar gyfer defnydd adeilad fel uned breswyl hunan gynhaliol (defnydd Dosbarth C3); Talarfor Stables and Barn, Llanystumdwy. Gofyn am wybodaeth nid barn. Does gan y Cyngor ddim gwybodaeth.
8. Cais Rhif: C18/0462/41/TC – Tystysgrif datblygiad cyfreithlon (defnydd presennol) ar gyfer defnydd fel uned breswyl hunan gynhaliol heb gydymffurfio a amod 2 ar ganiatad cynllunio cyfeirnod 2/21/226'A' dyddiedig 28 Mawrth 1984 (defnydd dosbarth C3); Talarfor Stables and Barn, Llanystumdwy. Does gan y Cyngor ddim gwybodaeth.
9. Cais Rhif: C18/0371/41/LL – Codi strwythur pren allanol, cynlluniau diwygiedig, ffurflen gais ddiwygiedig; Talhenbont Hall, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

10. Un Llais Cymru; ymateb Un Llais Cymru i Adolygiad y Cyngor Cymuned a Thref. Derbyniwyd er gwybodaeth.

11. Gohebiaeth oddi wrth Gyngor Tref Cricieth ynghylch toriad gwasanaeth bws o Gricieth i Gaernarfon. Penderfynwyd anfon eto i ofyn i'r gwasanaeth gael ei adfer yn llawn ac anfon copi o'r llythyr i Gyngor Tref Cricieth.

12. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Materion yn ei habsenoldeb gan y Cynghorydd Marian Evans a chopi o ohebiaeth gan y Cynghorydd Sirol, y Cynghorydd Aled Lloyd Evans.

1. Mae'r canclwm siapaneaidd sydd ar dir y Cyngor angen ei drin rhag blaen ac o bosib bod balsam himaleaidd ar dir y Cyngor hefyd. Penderfynwyd gofyn i Mr Richard Hubbard gael golwg ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.
2. Cafwyd cwynion bod y llwybr troed dros y bont yn cael ei rwystro gan geir yn parcio yn flêr pan mae gêm beldroed yn y cae wrth yr afon. Mynegwyd hefyd bod bysiau yn ei chael yn anodd mynd dros y bont am yr un rheswm. Penderfynwyd aros tan ddechrau'r tymor ac ail edrych ar y sefyllfa.

Rhoslan

Materion gan y Cynghorydd Anwen Jones.

Trethdalwyr yn cwyno am gyflwr y ffordd ger Gaerddu Fawr i gyfeiriad Penbryn Pencoed. Hefyd yr oedi gyda gwaith ail wynebu o Betws Bach i Llwyn yr Eryr. Penderfynwyd cysylltu gydag Adran Priffyrdd Dwyfor, Cyngor Gwynedd. Mae tyllau eto yn y ffordd heibio Dalar Deg am groeslon Penybryn ar y ffordd heibio'r Parc Amaeth ym Mhenygroes Llanystumdwy. Gofynnwyd i hyn gael ei roi ar y llythyr hefyd.

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

13. Fferm Solar Brynbachau, Chwilog. Derbyniwyd yr ateb na fydd taliadau ar gyfer y gymuned yn dod o'r datblygiad yma. Mae'r datblygwyr gwreiddiol wedi gwerthu'r fferm solar i gwmni arall.

14. Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR); gohebiaeth oddi wrth gwmni Delwedd Ltd. Bydd angen cyfarfod yn fuan i ddechrau ffurfio polisi.

15. Hysbysiad Preifatrwydd Cronfa Ddata Cynghorau Cymuned a Thref; gohebiaeth oddi wrth Llywodraeth Cymru. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

Materion Ariannol

16 Derbyn adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31ain, 2018 a'r camau nesaf. Dau beth godwyd gan yr Archwilwyr Mewnol oedd methiant i asesu risgiau yn briodol a methiant i gynnwys *Fidelity Guarantee* fel rhan o'r Polisi Yswiriant. Mae'r Polisi Asesiad Risg yn barod yn ei le ac mae gan y Cyngor yswiriant *Fidelity Guarantee*, y dudalen briodol o'r rhestr yswiriant oedd heb gael ei hanfon; mae yn ei lle erbyn hyn. Mabwysiadwyd y Polisi Asesiad Risg. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, mae'r hysbysiadau priodol yn eu lle yn y manau arferol yn y gymuned a gellir cwblhau'r archwiliad drwy anfon y ffurflenni priodol i'r Archwilwyr Allanol erbyn Gorffennaf 2il, 2018.

17. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Fel sy'n arferol rhoddwyd adroddiad lawn yn nodi yn union beth ydi'r sefyllfa ariannol yn cael ei gefnogi gan adroddiadau banc cyfredol. Mae'r gwaith symud y safle bws i gyferbyn â'r lloches bws ger tai Cae'r Ffynnon, Llanystumdwy wedi cael ei wneud. Does dim peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Derbyniwyd yr adroddiad.

18. Anfoneb angen ei dalu:

Cyngor Gwynedd; cyfraniad i Gyngor Gwynedd yn unol â chytundeb darpariaeth toiledau cyhoeddus 2018/19, Toiledau Llanystumdwy, £2000-, taliad siec rhif 100981.x Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

19. Llythyr cais Cylch Meithrin Chwilog am gymorth ariannol a mantolen. Ymadawodd y Cynghorydd Sion Aled Jones ac wedi trafodaeth penderfynwyd gofyn am chwaneg o wybodaeth fel beth yw'r costau net misol a rhoi'r cais ar raglen waith cyfarfod mis Gorffennaf.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk